**Ffurflen Adborth – Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Amlinellol ar gyfer 2025**

I ddefnyddio'r ffurflen hon, teipiwch eich atebion yn y blychau, rhoi tic neu deipio 'ie' gyferbyn â'r dewisiadau priodol lle mae rhestr wedi'i chynnwys. Ar ôl ei chwblhau, anfonwch y ffurflen mewn e-bost at **sfs-codesign@llyw.cymru**

**Amdanoch chi**

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Dyfan Sion** |
| **A ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu grŵp?** | **Sefydliad** |

**Ymateb gan unigolyn**

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad e-bost** | |
| **Cod post** | |
| **Oedran** | 18 – 28<br>29 – 40<br>41 – 54<br>55 – 64<br>65+ |

| | |
|---|---|
| **Galwedigaeth** | Ffermwr |
| | Arall (rhowch fanylion) |

| | | |
|---|---|---|
| **Sector ffermio (dewiswch bob un sy'n berthnasol)** | Defaid | |
| | Gwartheg sugno eidion | |
| | Gwartheg eidion | |
| | Gwartheg llaeth | |
| | Ffermio âr | |
| | Garddwriaeth | |
| | Dofednod | |
| | Moch | |
| | Amherthnasol | |
| | Arall (rhowch fanylion) | |

**CWBLHEWCH Y FFURFLEN A'I DYCHWELYD AT: sfs-codesign@llyw.cymru**

| **A oes gennych hawliau ar hyn o bryd rydych chi'n eu harfer i bori stoc ar dir comin?** |
|---|
| |

| **Nodwch y math o berchnogaeth sy'n berthnasol i'ch fferm:**<br>• **Yn berchen ar y cyfan**<br>• **Yn berchen ar y rhan fwyaf**<br>• **Y cyfan dan denantiaeth**<br>• **Y rhan fwyaf dan denantiaeth** |
|---|
| |

**Ymateb gan sefydliad neu grŵp**

| **Enw'r sefydliad neu grŵp** | **Comisiynydd y Gymraeg** |
|---|---|
| **A yw eich sefydliad wedi'i leoli neu'n cael ei weithredu yng Nghymru?** | **Wedi'i leoli yng Nghymru**<br>**Yn cael ei weithredu yng Nghymru**<br>**Y ddau** (circled)<br>**Ddim wedi'i leoli nac yn cael ei weithredu yng Nghymru** |
| **Cyfeiriad e-bost cyswllt** | **post@cyg-wlc.cymru** |

| **Nodwch pa un o'r rhain sy'n cynrychioli eich sefydliad orau (dewiswch bob un sy'n berthnasol)** | Ffermio | |
|---|---|---|
| | Coedwigaeth | |
| | Yr amgylchedd | |
| | Milfeddygaeth | |
| | Twristiaeth / lletygarwch | |
| | Cadwyni cyflenwi bwyd a phren | |
| | Y sector cyhoeddus | X |
| | Y sector preifat | |
| | Y trydydd sector | |
| | Undeb llafur / cynrychiolydd undeb llafur | |
| | Ymchwil / y byd academaidd | |
| | Arall (rhowch fanylion) | |

**CWBLHEWCH Y FFURFLEN A'I DYCHWELYD AT: sfs-codesign@llyw.cymru**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd ein sylwadau yn canolbwyntio ar oblygiadau'r Cynllun ar gyfer y Gymraeg ym maes ffermio. Rydym yn falch o weld cydnabyddiaeth gan y Gweinidog yn ei Rhagair bod "amaethyddiaeth yn allweddol o ran cynnal y Gymraeg iddi allu ffynnu yn ein cymunedau gwledig".

**Rhowch eich safbwyntiau ar Bennod 2: Cyflwyniad**

**Mae'n bosibl y byddwch am ystyried y canlynol yn benodol:**

- **Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy**
- **Canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy**
- **Dylunio'r Cynllun**

Nodir ym Mhennod 2 bod y "Cynllun wedi'i lunio i gefnogi ffermwyr i gyflawni amcanion Rheoli Tir yn gynaliadwy" a rhestrir yr amcanion hynny (2.1). Mae'r tri amcan cyntaf yn y rhestr yn adlewyrchu'r tri amcan cyntaf a gyflwynir ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru). Fodd bynnag, nid yw'r pedwerydd amcan yn cynnwys y cymal pwysig canlynol sy'n ymddangos ym mhedwerydd amcan y Bil, "a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd" (Rhan 1, Adran 1(5)). Dylai'r Cynllun gynnwys y cymal hwnnw ac, yn bwysicach fyth, dylai'r cymal ddylanwadu ar holl gynnwys y Cynllun.

Ym Mhennod 2 ceir datganiad am gynnal cymunedau gwledig a chefnogi'r Gymraeg: "Bydd cadw ffermwyr ar y tir yn cynnal hefyd ein cymunedau gwledig [...] gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau ffermio" (2.3.1). Rydym yn cefnogi'r nod hwn, ond nid yw'n glir sut y bydd y Cynllun yn sicrhau cefnogaeth gref i'r Gymraeg a'i siaradwyr na sut y bydd yn mesur deilliannau'r gefnogaeth hon. Credwn bod angen egluro ac amlygu hynny yn y polisi terfynol.

**Rhowch eich safbwyntiau ar Bennod 3: Strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

**Mae'n bosibl y byddwch am ystyried y canlynol yn benodol:**

- **Safonau Gofynnol Cenedlaethol**
- **Strwythur y Cynllun**

Eglura Pennod 3 mai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fydd yn sail i'r Cynllun ac mai'r bwriad yw eu creu mewn pryd ar gyfer cyflwyno'r Cynllun. Gofynnwn i'r Llywodraeth sicrhau y bydd y safonau a'r mesurau gorfodi yn rhesymol yng nghyd-destun eu gofynion ar ffermydd teuluol, llai, sy'n bwysig i gynnal hyfywedd y Gymraeg. Yn ôl Memorandwm Esboniadol y Llywodraeth ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru), "Mae ymchwil yn dangos bod bron i ddwy ran o dair (65%) o Gymry Cymraeg ar ffermydd bach a bach iawn yng Nghymru yn siarad yr iaith yn ddyddiol" (8.54).

**Rhowch eich safbwyntiau ar Bennod 4: Fframwaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

**Mae'n bosibl y byddwch am ystyried y canlynol yn benodol:**

- **Nodweddion y Cynllun**
- **Cyswllt Ffermio**
- **Gweithredoedd a Gynigir**

Mae Pennod 4 yn trafod Cyswllt Ffermio (4.2), a fydd yn darparu hyfforddiant a gwasanaeth cynghori ac yn rhannu gwybodaeth ac arloesedd. Bydd hefyd yn darparu rhaglen Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP). Cyfeirir ffermwyr at gynghorwyr, contractwyr a mentoriaid ac ystyrir rhoi deunydd hyrwyddo a marchnata i ffermwyr. Dylid sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r holl ddarpariaeth hon a bod y cynghorwyr, y contractwyr a'r mentoriaid i gyd yn gallu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg. Dylid annog ffermwyr i ddatblygu'n broffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau ei fod yn hawdd iddynt gael y ddarpariaeth yn y Gymraeg. Dylai'r ddarpariaeth gynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Dylid hyrwyddo'r ffaith fod y ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg.

Mae bwriad mabwysiadu un set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer pob sector ffermio, yn ogystal ag un arall ar gyfer y diwydiant cyfan. Nodir y byddant yn canolbwyntio ar ffactorau busnes, cynhyrchu ac amgylcheddol (4.3.1). Yng nghyd-destun ffactorau busnes, dylid cydnabod ffermwyr sy'n hyrwyddo'r Gymraeg trwy eu busnes.

Amcan arall yn y Cynllun yw helpu busnesau fferm i ddeall y farchnad ac ymateb i gyfleoedd ynddi, yn ogystal â chefnogi bwyd lleol. Dylid sicrhau bod ffermwyr yn cael cymorth i ddefnyddio'r Gymraeg fel arf marchnata unigryw all gynyddu potensial y farchnad. Mae llawer o dystiolaeth am werth y Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata yn y sector cynhyrchu a marchnata bwyd a diod. Canfu ymchwil Comisiynydd y Gymraeg yn 2014 bod defnyddio'r Gymraeg yn gwneud i gynnyrch sefyll allan, yn atgyfnerthu delwedd brand a tharddiad lleol cynnyrch, yn cynnig cyfleoedd i werthu mewn marchnadoedd newydd ac yn cael ei weld fel arwydd o ansawdd. (Gweler *Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru: Adroddiad ymchwil* – [bwyd-a-diod-food-and-drink.pdf (comisiynyddygymraeg.cymru)](bwyd-a-diod-food-and-drink.pdf).)

Nodwn bod pum nodwedd i weithredoedd y Cynllun, gan gynnwys "lleihau allyriadau a dal a storio cymaint o garbon â phosib" (4.1). Mae'r Gweithredoedd Sylfaenol perthnasol yn cynnwys y disgwyliad y bydd ffermwyr yn "cadw o leiaf 10% o'u fferm dan goed". Rydym yn deall, wrth gwrs, bwysigrwydd storio carbon. Er hynny, rydym yn pryderu am effaith y gofyniad hwn ar ffermydd teuluol, llai, gan y gallai fod yn amhosibl i'r ffermwyr neilltuo'r gyfran honno o'u tir ar gyfer plannu coed heb i hynny gael effaith andwyol ar eu busnes. Oherwydd pwysigrwydd y ffermydd hyn i hyfywedd y Gymraeg, fel y nodwyd uchod, rydym yn pryderu am effaith bosibl y Weithred Sylfaenol hon ar barhad y gymuned amaethyddol draddodiadol, Gymraeg ei hiaith, ac ar hyfywedd cymunedau gwledig yn fwy cyffredinol.

Nodwedd arall yw "lles pobl, anifeiliaid a lle". Un o'r amcanion dan y nodwedd hon yw "Galluogi pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a mynd iddo" (4.3.5). Mae'r Gweithredoedd Opsiynol perthnasol yn cynnwys "ymweliadau gofal ac addysgol â'r fferm". Dylid annog ffermwyr sy'n siaradwyr Cymraeg ac sy'n dewis yr opsiwn hwn i ddarparu ymweliadau trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u cefnogi yn ymarferol i wneud hynny. Agwedd arbennig o'r gymuned ffermio Gymraeg ei hiaith yw ei "thafodieithoedd a therminoleg sy'n benodol i'r sector yn y Gymraeg a ddefnyddir gan ffermwyr a'u teuluoedd", y mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn cyfeirio atynt yng nghyd-destun "diogelu'r diwylliant a'r dreftadaeth sydd ynghlwm wrth ffermio yng Nghymru" (8.13). Gellid hefyd gynnwys enwau lleoedd a nodweddion tirweddol yn yr wybodaeth ieithyddol werthfawr sydd gan ffermwyr. Dylid cefnogi ffermwyr i rannu'r wybodaeth honno a'u cydnabod am wneud hynny, a chynorthwyo ffermwyr nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg i ddod yn ymwybodol o'r cyfoeth gwybodaeth am eu fferm sy'n deillio o'r enwau tirweddol sy'n gysylltiedig â hi.

Dan yr amcan "Buddsoddi mewn pobl i ddarparu gwaith teg a chreu gweithlu sy'n cael ei werthfawrogi", eglurir y cefnogir ffermydd "i rymuso eu staff, [a] rhoi clust a chynrychiolaeth iddynt [...] mewn amgylchedd iach a chynhwysol sy'n parchu hawliau". Dylai'r gefnogaeth

hon gynnwys codi ymwybyddiaeth ffermwyr o'r Gymraeg yn y gweithle a pharchu hawl aelodau'r gweithlu i siarad Cymraeg gyda'i gilydd a derbyn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant hynny.

Dan yr amcan "Meddu ar y sgiliau i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol", cyfeirir at yr amrywiaeth o ffyrdd a gynigir i ffermwyr ddysgu. Mae'r Weithred Sylfaenol berthnasol yn "gofyn i ffermwyr gwblhau lefel ofynnol o waith dysgu" a'r Weithred Opsiynol yn cynnig bod ffermwyr "yn cael help i ddilyn DPP cymhlethach neu o lefel uwch [ac] yn cael eu gwobrwyo am drosglwyddo gwybodaeth i ffermwyr eraill". Fel y nodwyd uchod, dylai pob cynnig dysgu a hyfforddi fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid hefyd annog ffermwyr sy'n siaradwyr Cymraeg i drosglwyddo gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i'w cydweithwyr sy'n siarad yr iaith.

**Rhowch eich safbwyntiau ar Bennod 5: Proses y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

**Mae'n bosibl y byddwch am ystyried y canlynol yn benodol:**

- **Cofrestru fel Ffermwr a'r Meini Prawf ynghylch pwy sy'n gymwys**
- **Adolygiad o Gynaliadwyedd**
- **Dewis Gweithredoedd**
- **Y Contract**
- **Rheolau'r Cynllun**
- **Taliad**
- **Monitro a Chadarnhau**
- **Trefn Archwilio**
- **Cosbau**
- **Adrodd a Gwerthuso'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

Eglura Pennod 5 y bydd cyfraddau talu yn "cydnabod gwerth cymdeithasol y canlyniadau" (5.6). Dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gallai gydnabod gwerth canlyniadau cadarnhaol i'r Gymraeg.

Nodir y defnyddir dulliau gwahanol ar gyfer monitro ffermydd a chasglu data, ac y paratoir adroddiad blynyddol ar sut mae'r ffermydd yn y Cynllun yn datblygu (5.7). Nodir y bydd modd defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wella'r Cynllun (5.10). Dylid sicrhau y bydd yr wybodaeth honno yn cynnwys data am y Gymraeg, er enghraifft nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau amaethyddol a gwybodaeth am ddefnydd yr iaith yn y cymunedau hynny. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gosod sail dystiolaeth ar gyfer mesur datblygiad yng nghyd-destun defnyddio'r Gymraeg a'i chefnogi yn y sector ffermio yn y dyfodol.

**Rhowch eich safbwyntiau ar Bennod 6: Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Y Cynllun Pontio**

**Mae'n bosibl y byddwch am ystyried y canlynol yn benodol:**

- **Cyfnod Paratoi a Threialu (2022–2024)**
- **Y Cyfnod Pontio (2025–2029)**

Eglura Pennod 6 bod nifer o brosiectau yn cael eu cynnal i sicrhau canlyniadau SLM ac y byddant yn parhau yn ystod y cyfnod Paratoi a Threialu (6.1). Ni nodir a oes elfen o ddefnyddio'r Gymraeg neu ei chefnogi yn rhan o'r prosiectau hyn. Fel y nodwyd uchod, rydym yn falch bod y Gweinidog yn cydnabod pwysigrwydd amaethyddiaeth i gynaliadwyedd y Gymraeg a'i ffyniant, a bod y Gymraeg yn rhan o'r pedwerydd amcan rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddwyd ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru). Hoffem eglurder ar sut y gweithredir hyn yn ymarferol trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Er enghraifft, beth yw gweledigaeth y Cynllun yng nghyd-destun yr iaith a strategaeth y Llywodraeth, *Cymraeg 2050*? Sut allai'r Cynllun gefnogi cymunedau amaethyddol i gyfrannu at gyrraedd targedau'r strategaeth? Y bwriad erbyn 2050 yw i nifer y siaradwyr Cymraeg gyrraedd un filiwn ac i ganran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, gynyddu o 10 y cant i 20 y cant. Dylai'r Llywodraeth ystyried sut i weithredu yng nghyd-destun targedau *Cymraeg 2050* trwy brosiectau neu fentrau y gellid eu cynnal yn ystod y cyfnod Paratoi a Threialu.

**Os oes gennych unrhyw safbwyntiau neu dystiolaeth arall yr hoffech eu rhannu, defnyddiwch y blwch hwn i wneud hynny.**

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau hyn o gymorth wrth i chi barhau i weithio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn y drafodaeth am eich cynigion terfynol.

**CWBLHEWCH Y FFURFLEN A'I DYCHWELYD AT: sfs-codesign@llyw.cymru**